

anfonais lythyr hytrach yn ffiniog i'r Oriol gan ddweud ei bod ar dir a fu unwaith yn Gymreig ac i'r Cymry, ganrifoedd yn ôl, gollu brwydr yn erbyn y Sacsoniaid yng Nghatraeth gerllaw ac i mi hefyd gollu'r dydd. Ryw bythefnos yn ddiweddarach, daeth y copi o Merched y Pentref a fynwn gyda nodyn digon llun yn fy llongyfarch am nad oedd Cymru wedi colli'r dydd y tro hwn. Pwysau gwaith ac afiechyd a gai'r bai.

Mynnu llun noeth

Fe'm cynghorwyd y dylwn gynnwys erthygl ar Hogarth a'i waith o achos ei luniau moesol eu naw. Daeth Mansell i'r adwy gyda llun ohono a gwyddwn bod ei arluniau yn Amgueddfa Syr John Soane yn Llundain. Roedd yn rhaid imi ddisgrifio'r llun y dymunwn ei bwrcasu rywsut, sef darlun o Tom Rakewell yn y gyfres o wyth o arluniau, *The Rake's Progress*. Doedd dim ots gen i pa un o'r wyth a gawn ond ni fynwn ddangos fy anwybodaeth a gofynnais (trwy ddyfalu) am lun olaf y gyfres, llun sy'n dangos Tom ym Medlam, wedi colli popeth. Dywedais fy mod am y llun ohono'n noeth a heb ddim â lladron yn lladrata oddi wrtho. Daeth yr arlun ymhenn dim, ynghyd â llythyr chwareus gan y curadur. Gofynnodd imi beth allai'r lladron ei ladrata os oedd Tom yn noeth a heb ddim!

Ceisio lluniau am ddim

Gellid meddwl y byddai'n hawdd cael lluniau o enwogion byd y bêl gan fod nifer o asiantaethau'n canolbwyntio ar gampywr. Er na ddywedodd y Cyngor Llyfrau wrthyf unwaith am beidio â gwario gormod, ceisiwn gael lluniau am ddim neu'r nesaf peth i ddim pan oedd hynny'n bosibl. Ym myd y bêl hir-gron dewisais Lewis Jones, Gorseinon. Hwyrach nad yw ei enw'n golygu llawer heddiw ond yn y pumdegau galwai selogion byd rygbi'r Undeb ef yn wythfed rhyfeddod y byd. Gadawodd rygbi'r Undeb i ddisgleirio

gyda Leeds yn y Cynghrair. Roedd yn byw yn Leeds pan gysylltais ag ef i ofyn am lun. Y cyfan a ges ganddo oedd rhaglen o ryw gêm neu'i gilydd oedd wedi argraffu llun ohono. Roedd yn athro mathemateg erbyn hyn a dywedodd yn ymddiheuriol na feddai ar unrhyw lun ohono'n cyflawni camp ar y maes rygbi ac nad oedd yn mynd i weld y gêm yn cael ei chwarae mwyach. Anfonais y rhaglen yn ôl iddo gyda diolch a thalu i *The Western Mail* am lun.

Cael trafferth i gael llun o John Charles

Rhywbeth yn debyg fu fy hanes pan ofynnais i John Charles am lun. Atebodd fy nghais ar unwaith gan egluro mewn llythyr nad oedd ganddo'r un ac nad oedd yn mwynhau'r iechyd gorau. Gallwn gasglu wrth ddarllen rhwng y llinellau bod ei fyd a'i fywyd mewn ty cyngor yn Leeds dipyn yn gyfyng a thlawd a daeth *The Western Mail* i'r adwy unwaith eto. Beth amser wedi hynny dechreuodd byd y campau gymryd mwy o sylw ohono a chafodd glodydd haeddiannol, cyfeillgarwch, a sawl teyrnged cyn ei farw ychydig yn ôl.

Gyrru llythyr miniog at NASA

Wrth lunio *Darganfyddwyr môr ac awyr*, anfonais at NASA am luniau o Armstrong ac Aldrin, gan obeithio'u cael am ddim. Roedd digon o luniau gen i ond roedden nhw i gyd dan hawlfraint ac mae'n hanfodol bwysig parchu hawlfraint. Anfonais nifer o llythyrau i'r UD ond ni ddaeth ateb, ac am yr eildro anfonais llythyr miniog yn llongyfarch NASA am lanio ar y lleuad a chwyno am na allen nhw gyrraedd plant Cymru. Yn lled fuan wedyn, ces barseil o luniau am ddim, digon ar gyfer cyfrol pe bawn am lunio un.

Dywedir bod rhyw gamgymeriad ym mhob llyfr a gyhoeddir; gormodiath, efallai. Ond gwnaeth un asiantaeth gamgymeriad dybryd



John Charles (1931-2005)

wrth anfon llun ataf. Roeddwn yn casglu deunydd ar gyfer crefyddwyr enwog a gofynnais i'r Dr Terry Thomas lunio erthygl ar Paul Tillich. Cefais lun gan *Camera Press* ac fe'i hargraffwyd. Anfonwyd copi cyfarch o'r llyfr i'r awdur a chododd y ffôn. Nid llun Paul Tillich oedd yn y gyfrol. Ymddiheurodd yr asiantaeth a syrthio ar ei bai ond does gen i ond gobeithio na fydd rhyw fyfyrwr yn rhywle, rywbryd, yn defnyddio'r llun anghywir o Tillich sydd yn Crefyddwyr Enwog.

Mae amser wedi goddiweddyd defnyddioldeb y deunaw llyfr erbyn hyn ac ychydig ar ôl cwblhau'r gwaith, trois at yr holl luniau, llythyrau a phapurau a feddwn yn fy ffeiliau a'u llosgi; pentwr anferth. Roedd gen i gynifer o heym yn y tân yr adeg honno a gofod yn y ty yn brin, ond heddiw rwy'n gweld y byddai sawl llun a llythyr wedi tyfu'n werthfawr gyda'r blynyddoedd.

AR WERTH

Cofiant Dr. Lewis Edwards, Thomas Charles Edwards	
1901 1/4 lledr	£5.00
Adroddiadur' Co' Bach, Gruffudd Parry 1949	£5.00
Enwogion y Ffydd 1880, 4 cyfrol 4to., lluniau, lliain addurniadol ac euro, cyflwr da iawn	£20.00
Stori 'Mywyd, Pedrog 1932	£5.00
Cofiant Parch Robert Ellis Ysgoldy [Arfon] 1883	£7.50
Cofiant J. R. Jones, Ramoth 1913	£7.50
Y Drysorfa - dwy gyfrol, 1914 ac 1918 £5.00 yr un	
Apostol y plant [Robert Owen, Nefyn], O. Hughes 1898, diglawr	£5.00
Homiliau...mewn Eglwysydd 1817 lliain, bregus	£10.00
Y Purdan, nofel Gwilym R. Jones 1942	£2.00
Evan Roberts a'I Waith, D. M. Phillips 1912	£5.00
Crefft Cledd Cennard, J. W. Jones [Conwy] 1971	£2.50
Cofiant Parch John Davies Nerquis 1907	£6.50
David Williams y Piwritan, Richard Thomas 1928	£3.50
David Charles Williams, Huw Llewellyn Williams 1964	£3.50
Yr Ysbryd Glân, R. Tudur Jones 1972	£2.50
Y Gymdeithasfa...hyd 1890, Caernarfon 1891 (llofnod D. Cardog Evans)	£7.50
Cofiant John Jones Bryn'rodyn 1903	£6.50
Pregethau ac Emynau Philip Jones, gol. Nantlais 1948	£3.50
William Ryle Davies, R. Humphreys 1904	£6.50
Cofiant Parch John Evans Eglwysbach 1903	£6.50
A Welais ac a Glywais Cyf, 2, J. J. Morgan 1949	£3.50
Cadwaladr Jones (hen olyg. Y Dysgedydd) 1870	£7.50
Llydaw am byth, Valère Depauw [cyf.] 1969	£4.50

TAL CLUDIANT YN YCHWANEGOL

Cysyllter â NAN ELIS,
Hafryn, Llwynhudol, Pwllheli, Gwynedd LL53 5YE
neu ar 01758 612483

Rhoddd Gymorth

Os ydych am gefnogi'r Gymdeithas trwy gyn-llun RHODD GYMORTH cysylltwch â'r golygydd neu'r trysorydd am ffurflen.

Mae'r Gymdeithas yn gallu elwa o £1.80 y pen heb fod yn gôst ychwanegol i chi. Mae pob ceiniog yn cyfrif.

Aelodaeth

A fydddech mor garedig a sicrhau bod eich tâl aelodaeth wedi ei dalu am eleni i'r Gymdeithas.

Gellwch dalu drwy archeb Banc os ydych yn dymuno ac mae ffurflen briodol i'w chael oddi wrth y Trysorydd.